**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD AR LEIN (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 15FED MEDI 2020 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), C. Matthews, M. Tasker, M. Worth.

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley, Clerc y Dref
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

**72/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**73/20 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**74/20 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25ain Awst 2020 yn adroddiad cywir..***

**75/20 Materion yn Codi o'r Cofnodion:**

**a) Cofnod 49/20: Gwaith ar y Promenâd, Llandrillo yn Rhos:**

(i) Cyflwynodd y Clerc ymateb e-bost gan Will Roberts, Swyddog Trafnidiaeth CBS Conwy (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac fe'i nodwyd.

(ii) Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig gan y Cynghorydd Baker, y dylid gwahodd Swyddog Trafnidiaeth o GBS Conwy i ddod i Gyfarfod nesaf y Cyngor, er mwyn trafod gostwng cyfyngiad y cyflymdra o 30 m.y.a. i 20 m.y.a. ar hyd yr holl Promenâd o Landrillo yn Rhos i Hen Golwyn. Dywedodd y Cynghorydd Baker y byddai gostwng y cyfyngiad o 30 m.y.a. i 20 m.y.a. nid yn unig yn gostwng y cyflymdra a chreu mwy o ddiogelwch ond hefyd yn creu amgylchedd mwy diogel / gwyrdd i ddefnyddwyr y ffordd, cerddwyr a beicwyr. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor mai 19 yn unig o ddamweiniau a gofnodwyd ar y Promenâd yn y 10 mlynedd diwethaf, 2 ohonynt yn ddifrifol. Ychwanegodd, cyn belled ag oedd yn gwybod, ni dderbyniwyd unrhyw gais gan drigolion am ostyngiad yn y cyfyngiad ar gyflymdra. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Baker i ddau o breswylwyr y bu'n siarad â hwy wedi datgan eu cefnogaeth. Fe wnaed sylwadau eraill o blaid ac yn erbyn y cynnig.

***Penderfynwyd, yn dilyn pleidlais, i gefnogi'r cynnig i wahodd Will Roberts, Swyddog Trafnidiaeth, CBS Conwy i ddod i Gyfarfod nesaf y Cyngor llawn i drafod y cyfyngiad ar gyflymdra ar y Promenâd.***

iii) Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am sgwrs a gafodd gyda'r Cynghorydd Roger Parry. Roedd y Cynghorydd Parry yn poeni na chafodd yr aelodau lleol / cynghorwyr y Cyngor Tref eglurhad am y gwahaniaeth yn y cynlluniau gwreiddiol o wneud y gwaith o ledu / gwella'r promenâd; cafodd lled y ffordd ei leihau gan achosi gwasgfa, a materion diweddar yn ymwneud a thraffig / diogelwch a hefyd gostyngiad sylweddol yn uchder y morglawdd fel ei bod ar yr un lefel ag uchder y llwybr beicio / cerdded. Bydd yn trafod y materion hyn gydag Arweinydd CBS Conwy.

**b) Cofnod 54/20: Caban Ffôn BT, Ffordd Abergele:**
Dywedodd y Clerc bod CBS Conwy wedi clywed am y trafodaethau oedd yn mynd ymlaen ynglŷn â'r posibilrwydd o fabwysiadu'r caban ffôn a'i ddefnyddio i gadw diffibriliwr. Disgwylir am ymateb gan Gymdeithas Trigolion Hen Golwyn (parthed cefnogaeth) a BT (ynglyn a chyflwr y caban a'r cyflenwad ynni). Fe nodwyd bydd y Clerc yn cyflwyno diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

**76/20 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

**a)** Cyflwynodd y Clerc:
**(i)** Rhybudd o Reoliad Traffig Dros Dro ar gyfer Ffordd Llanrwst o 26/10 tan 28/10/01 (Gwaith Nwy)

**b) Cabanau Aros am Fysus:** Diweddariad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am arwyddion a glanhau'r cabanau

**c) Mannau Parcio i rai gydag Anableddau:** Hysbyseb am y mannau parcio i rai gydag anableddau yn ardal y Cyngor Tref

Fe nodwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Aelodau.

**77/20 <u>Cynllunio</u>:**

**a** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b** ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 10/8/2020 hyd at 6/9/2020.***

**c) Cymorth Cynllunio, Cymru:**

**(i)** Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am hyfforddiant ar-lein sydd i'w gynnal ar 30/9/20, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.
**(ii)** Cyflwynodd y Clerc arolwg am y gwerth o ymgysylltu a'r gymuned ynglyn a chynllunio. Er mwyn ymateb i;r arolwg, gofynnodd i'r Aelodau os oedd ganddynt unrhyw enghreifftiau lle cafodd ymgysylltiad a'r gymuned dylanwad ar y penderfyniad cynllunio. Cytunodd yr Aelodau bod y cais diweddar am Larkfield House yn enghraifft dda o ymgysylltu a'r gymuned. Cynhaliwyd cyfarfod

cyhoeddus a derbyniwyd cyngor oddi wrth Gymorth Cynllunio Cymru a Cadw.

***Penderfynwyd dirprwyo'r Clerc i ymateb i'r arolwg gan ddefnyddio enghraifft Larkfield House. Gofynwyd i'r Cynghorydd G. Baker rhoi mwy o wybodaeth i'r Clerc oherwydd ei chysylltiad â'r cais.***

c**h) Gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio:**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad am y gweithdrefnau presennol sy'n berthnasol i ymweld â safleoedd a chyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio CBS Conwy, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm …… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD ONLINE (VIA ZOOM) AT 6:30PM ON TUESDAY 15TH SEPTEMBER 2020**

**PRESENT:** Cllr C Brockley (Chair)
Cllrs: G Baker; Mrs M Jones (Deputy Mayor); C Matthews; M Tasker; M Worth

**OFFICERS:** Mrs Tina Earley, Clerk
Mrs Roz Dudley, Assistant Clerk

**193/19 Welcome and Apologies for Absence:**

The Chair welcomed members to the meeting. No apologies for absence had been received.

**194/19 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**195/19 Minutes**:

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 25th August 2020.***

**196/19 Matters arising from the Minutes:**

**a) Min 49/20: Rhos Promenade Works:**

**(i)** The Clerk submitted an email response from Will Roberts, Traffic Officer, Conwy CBC (previously circulated to all members) which was noted.

**(ii)** Members were asked to consider a proposal from Cllr Baker that a Traffic Officer from Conwy CBC be invited to the next Council Meeting to discuss reducing the speed limit of 30mph to 20mph speed limit along the full length of the promenade, from Rhos on Sea to Old Colwyn. Cllr Baker stated that a reduction in the limit from 30mph to 20mph would result not only in lower speed and greater safety but also will provide a safer/greener environment for road users, pedestrians and cyclists. The Chair informed the committee that in the last 10years, there had only been a total of 19 accidents recorded on the promenade, 2 of which were serious. He added that, as far as he was aware, there had been no requests from any residents for a reduction in the speed limit.
Cllr Baker responded that two residents she had spoken too had expressed their support. Other comments were made both in support of and against the proposal.

***Resolved, following a vote, to support the proposal to invite Will Roberts, Traffic Officer, Conwy CBC to attend the next full Council***

***Meeting to discuss the speed limit on the promenade.***

**(iii)** The Clerk gave a brief verbal report on a conversation she had had with Cllr Roger Parry. Cllr Parry had concerns that no explanation had been given to local members / town councillors when the plans for the promenade widening/ improvement works differed from the original drawings; the width of the road had been reduced, causing the pinch point and recent traffic/safety issues and also the height of the sea wall had been reduced considerably to bring it level with the height of the cycle/footway. He will be taking these concerns up with the Leader of CCBC.

**b) Min 54/20: BT Kiosk Abergele Road:**

The Clerk reported that Conwy CBC had been informed of ongoing discussions re: possible adoption and use of the phone kiosk for housing a defibrillator. Responses were awaited from OCRA (regarding their support) and BT (regarding the condition of the kiosk and power supply)**.** It was noted that the Clerk would provide an update at the next meeting.

***197/19*** **<u>Conwy CBC:</u>**

***a)*** The Clerk submitted:

***(i)*** TTR for Llanrwst Road from 26/10 to 28/10/01 (Gas Work)

***b)*** **Bus Shelters**: An update from Conwy CBC regarding signage and cleaning of the shelters.

***c)*** **Disabled Bays**: Notice of proposed disabled parking bays in the Town Council area.

Members received and noted the correspondence.

**198/19 <u>Planning:</u>**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.***

**b)** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 10/08/2020 – 06/09/2020.***

**c) Planning Aid Wales:**

**(i)** The Clerk submitted information about an online training course to be held on 30/09/20, which was noted by members.

**(ii)** The Clerk submitted a survey about the value of community engagement in planning. She asked if any members had any examples where community engagement had influenced the planning decision, so a response could be sent to the survey. Members agreed that the recent

application at Larkfield House was a good example of community engagement. A public meeting had taken place and advice had also been received from PAW and Cadw.

***Resolved to delegate to the Clerk to respond to the survey using the example of Larkfield House. Cllr G Baker was asked to provide the Clerk with more detail, as she had been involved with the application.***

**d) Planning Committee Procedure:**

The Clerk submitted the report on the current procedures relating to Conwy CBC Planning Committee site visits and meetings, which was noted by members.

The meeting closed at 7.45pm.

……. Chairman